



Mae Athrawon-Ymchwilwyr yn gwerthuso tystiolaeth i gyflwyno arfer sy'n seiliedig ar ymchwil.

Mae **gwerthuso tystiolaeth** yn golygu cydnabod p'un a yw'r wybodaeth y byddwch yn ei darllen a'i chynnwys yn eich ymchwil yn **gredadwy**. Nid yw pob gwybodaeth yn **ddilys**, yn **ddefnyddiol**, neu'n **gywir**. Mae gwerthuso tystiolaeth yn gam pwysig yn unrhyw arfer sy'n seiliedig ar ymchwil.



Pethau i gadw llygad amdanynt?

'Amodau' y newidiadau o arfer arferol yn yr ysgol (e.e. astudiaethau a gyflwynir gan ymchwilwyr.)

Astudiaethau sydd heb eu gwerthuso'n **annibynnol**.

Astudiaethau sydd wedi'u cynnal neu eu comisiynu gan sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r dull e.e. mentrau masnachol

Amrywiad heb esboniad rhwng yr astudiaethau o fewn yr un pwnc.

Canlyniadau y mae'n bosibl bod ffactorau anhysbys yn dylanwadu arnynt h.y. Astudiaethau nad ydynt yn defnyddio dull grŵp hapsamplu rheolyddedig.

Dibynadwyedd

P'un a ellir atgynhyrchu'r canlyniadau o dan yr un amodau.

Dilysrwydd

P'un a yw'r canlyniadau wir yn cynrychioli'r hyn y maent i fod i fesur.

Geiriau allweddol y gallwch eu defnyddio wrth werthuso ffynonellau:

camarweiniol

cysylltiedig gwrthrychedd difyrru cyfredolrwydd

anghywir cywirdeb craffu sefydliadol

dilysrwydd cynulleidfa awdurdod detholus diwylliannol

perthnasedd gwerthu tuedd amseroldeb propaganda

pwrpas bwriadedig dadl

dilysu dibynadwyedd hygrededd gwleidyddol

perswadio safbwyntiau wedi'i adolygu



Mae Athrawon-Ymchwilwyr yn ddetholus yn eu hymchwil.

Any questions?



Defnyddiwch y prawf CRAAP i ddewis ffynonellau dilys a dibynadwy

CRAAP



Cyfredolrwydd	Amseroldeb y wybodaeth
Perthnasedd (Relevance)	Pwysigrwydd y wybodaeth i'ch anghenion
Awdurdod	Ffynhonnell y wybodaeth
Cywirdeb (Accuracy)	Dibynadwyedd, gonestrwydd a chywirdeb y cynnwys
Pwrpas	Y rheswm pam fod y wybodaeth yn bodoli

Cyfredolrwydd

- ☐ Pryd cafodd y wybodaeth ei chyhoeddi neu ei phostio?
- ☐ Pryd cafodd y wybodaeth ei hadolygu neu ei diweddarau?
- ☐ A oes angen gwybodaeth gyfredol ar eich pwnc, neu a fydd ffynonellau hŷn yn gweithio hefyd?

Perthnasedd

- ☐ A yw'r wybodaeth yn berthnasol i'ch pwnc neu'n ateb eich cwestiwn?
- ☐ Pwy yw'r gynulleidfa darged?
- ☐ Ydych chi wedi edrych ar ffynonellau eraill cyn penderfynu mai hon yw'r un y byddwch yn ei defnyddio?
- ☐ A fydddech yn gyfforddus yn cyfeirio at y ffynhonnell hon yn eich aseiniad?

Awdurdod

- ☐ Pwy yw'r awdur, y cyhoeddwr neu'r ffynhonnell?
- ☐ Beth yw cymwysterau neu gysylltiad sefydliadol yr awdur?
- ☐ A yw'r awdur yn gymwys i ysgrifennu am y pwnc hwn?
- ☐ A oes gwybodaeth gswllt, fel cyhoeddwr neu gyfeiriad e-bost?
- ☐ A yw'r URL yn datgelu unrhyw beth am y ffynhonnell? (Enghreifftiau: .gov, .edu, .org, .ac, ac ati)

Cywirdeb

- ☐ O ble y daw'r wybodaeth hon?
- ☐ A oes tystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth?
- ☐ A yw'r wybodaeth wedi'i hadolygu/dilysu'n allanol?
- ☐ Allwch chi ddilysu unrhyw ran o'r wybodaeth?
- ☐ A oes gwallau sillafu, gramadeg, neu deipograffig?

Pwrpas

- ☐ Beth yw pwrpas y wybodaeth: Ai hysbysu, gwerthu, difyrru neu berswadio?
- ☐ A yw'r awduron yn gwneud eu bwriadau neu eu pwrpas yn glir?
- ☐ Ai ffaith, barn, neu bropaganda yw'r wybodaeth?
- ☐ A yw'r safbwynt yn ymddangos yn wrthrychol a diduedd?
- ☐ A oes tueddiadau gwleidyddol, ideolegol, diwylliannol, crefyddol, sefydliadol, neu bersonol?



Mae Athrawon-Ymchwilwyr yn dadlau eu pwynt.

Dylai dadl dda fod yn seiliedig ar ddadansoddiad a beirniadaeth, a dylid cael perthynas resymegol rhwng tystiolaeth a chasgliadau.

Ymadroddion dadansoddol y gallwch eu defnyddio wrth ysgrifennu:

Dengys hyn...

Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith fod...

Gan ddangos fod...

Mae'r ddadl ynghylch...

Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd...

Mae'r [darnau ymchwil] hyn yn cydweithio i gryfhau achos ar gyfer....

O'r cychwyn cyntaf, mae [Awdur] yn ceisio ...

Y casgliad a geir o'r [astudiaeth/ymchwil] gan [Awdur] yw ...

Mae [Awdur] yn cyflwyno dadl wahanol sef...

Gan barhau â beirniadaeth [Awdur] o

Yng ngoleuni'r ddadl dros....

Mae'r gwahaniaeth rhwng [canfyddiadau/damcaniaethau] [Awdur] ac [Awdur] yn dweud wrthym fod...

Ar sail yr [ymchwil/tystiolaeth] a gynhaliwyd gan [Awdur], gellir dod i'r casgliad fod...

Y safbwynt a gyflwynir gan [Awdur] yw bod...

Cadwch eich ysgrifennu'n **FEIRNIADOL**:

Beirniadol:

- 👍 Yn gwerthuso
- 👍 Yn cymharu
- 👍 Yn llunio barn
- 👍 Yn nodi'r arwyddocâd
- 👍 Yn trafod 'Pam'?

Disgrifiadol:

- 👎 Yn adrodd stori
- 👎 Yn nodi'r hyn a ddigwyddodd
- 👎 Yn egluro'r hyn y mae damcaniaeth yn ei ddweud
- 👎 Yn egluro sut mae rhywbeth yn gweithio

